Coleg Prifysgol y Drindod
Trinity University College

Gwersylloedd Chwaraeon 2010
Coleg Prifysgol y Drindod
Ysgol Chwaraeon, Iechyd ac Addysg Awyr Agored

Sbort a Sbri!
i Blant (8-14 oed)

Cwrs 1: 12 – 16 Ebrill
Cwrs 2: 9 – 13 Awst
Cwrs 3: 16 – 20 Awst
Cwrs 4: 23 – 27 Awst

A fyddech cystal â chymryd amser i ddarllen y wybodaeth ganlynol cyn llenwi'r ffurflen gofrestru.

Nodau'r Cyrsiau

- Darparu hyfforddiant graddedig o ansawdd uchel mewn nifer o gampau
- Darparu amgylchedd llawn hwyl a diogel i blant ddysgu chwaraeon
- Rhoi cyfle i blant lleol gael profiad o ansawdd ac amrywiaeth cyfleusterau'r Brifysgol
- Cyflwyno plant i chwaraeon nad ydynt, o bosibl, wedi'u chwarae o'r blaen neu eu galluogi i wella mewn campau maent eisoes yn eu mwynhau.

Y Campau

Mae pob cwrs hyfforddiant yn rhedeg am bum niwrnod llawn o'r wythnos, gyda hyfforddwyr hollol gymwys sy'n sicrhau bod y plant o 8 -14 oed yn cael y cyfle gorau posibl i ddatblygu eu sgiliau mewn ffordd raddedig. Cynigiwn gymaint o gampau ag sy'n bosibl er mwyn rhoi ystod o sgiliau i'r plant eu profi a'u mwynhau.

Trefn y Dydd		Ystod y gweithgareddau	
8.30 - 9.00	**Cyrraedd/Cofrestru**	**Caiacio Dan Do**	**Wal Ddringo Dan Do**
9.00 - 10.20	Gweithgaredd 1	Ffrisbi 'Eithaf'	Badminton
10.20 -10.40	**Egwyl**	**Hoci**	**Pêl-fasged**
10.40 -12.00	Gweithgaredd 2	Cylched Ffitrwydd	Dawns/Aerobeg
12.00 -1.00	**Egwyl am ginio**	**Tri-Golff**	**Pêl-rwyd**
1.00 - 2.20	Gweithgaredd 3	Nofio/Polo Dŵr	Tennis Bwrdd
2.20 - 2.40	**Egwyl**	**Rygbi tag**	**Pêl foli**
2.40 - 3.40	Gweithgaredd 4	Rownderi/Criced	Pêl-droed
3.40 - 4.00	**Gweithgareddau tîm**	**Tennis Byr** Athletau Dan Do	**Mabolgiamocs** Sgiliau Achub Bywyd
4.00pm	Ymadael		

Lleoliad

Canolfan Chwaraeon Coleg Prifysgol y Drindod, Heol y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EP 01267 676943
Gallwch lawrlwytho map o www.drindod.ac.uk/cy/ybrifysgol/lleoliad/

Cyrraedd, Cofrestru ac Ymadael

Sicrhewch nad ydych yn cyrraedd yn gynharach nac yn hwyrach na'r amser a drefnwyd. Bydd y goruchwylwyr ar gael o 8.30am tan 4.00pm yn unig. Ni ddylid o dan **UNRHYW** amgylchiadau adael plant, beth bynnag yw eu hoedran, yn y Brifysgol cyn i'r goruchwylwyr gyrraedd. Rhaid i berson enwebedig sydd yn 16 oed o leiaf gofrestru'r plant I MEWN ac ALLAN bob dydd. Mae angen caniatâd ysgrifenedig os bydd plentyn yn teithio adref ar ei ben ei hun.

Goruchwyliaeth

Rydym yn darparu sesiynau dan oruchwyliaeth adeg cofrestru, cinio ac ymadael, rhwng y cyrsiau hyfforddi chwaraeon. Peidiwch â gadael i'ch plant ddod ag eitemau drud gyda nhw. Ni ellir dal Coleg Prifysgol y Drindod yn gyfrifol os bydd yr eitemau hyn yn cael eu colli neu eu difrodi.

Bydd pob sesiwn chwaraeon dan ofal hyfforddwyr hollol gymwys a phrofiadol. Mae pob un o'n hyfforddwyr a'n goruchwylwyr wedi cwblhau datgeliad manylach y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) i sicrhau eu bod yn addas i weithio gyda phlant.

Bwyd a Diod

Gwnewch yn siŵr bod eich plentyn yn dod â **phecyn bwyd** a **digon o ddiodydd**. Bydd sawl egwyl yn ystod y dydd. Rhowch botel ddŵr y gellir ei hail-lenwi i'ch plentyn.

Dillad

Bydd pob eitem o offer chwaraeon yn cael ei darparu, ond sicrhewch bod eich plentyn yn dod â digon o ddillad ac esgidiau chwaraeon **bob dydd** (h.y. crysau T, siwmperi, siorts, tracwisg, gwisg nofio a gogls, esgidiau ymarfer dan do glân, top glaw ysgafn, het haul). **Mae'n rhaid cael eli haul** – **nid** oes gennym hawl i gyflenwi **na** rhoi eli haul ar unrhyw blentyn, felly gwnewch yn siŵr eu bod yn dod â pheth gyda nhw yn ystod cyrsiau'r haf.

Costau

£95 yr wythnos yw'r ffi, hynny yw pum niwrnod rhwng 8.30am – 4pm **(£2.53 yr awr!)** Gostyngiad ar gael i deuluoedd.

Bwcio

Er mwyn bwcio lle, lawrlwythwch y ffurflen gofrestru ac wedi i chi ei llanw, anfonwch y ffurflen **ynghyd â manylion meddygol a datganiad** i'r cyfeiriad isod, gyda'r ffioedd llawn sydd i'w talu ar gyfer pob cwrs. Rhaid llenwi un ffurflen i bob plentyn. Caiff lleoedd eu clustnodi ar sail y cyntaf i'r felin.

Gellir talu â cherdyn neu siec yn daladwy i '**Coleg Prifysgol y Drindod**'. Fe gewch gadarnhad o'ch lle a derbynneb o'r taliad trwy lythyr. Nodwch yn glir ar y ffurflen gais os oes angen cadarnhad trwy ddull arall.

Ad-daliadau/Canslo

Ni ellir rhoi ad-daliad os byddwch yn canslo o fewn 7 diwrnod i'r cwrs. Codir ffi canslo o £10 os byddwch yn canslo mwy na 7 diwrnod cyn y cwrs. Os nad yw'r niferoedd yn ddigonol i gynnal unrhyw gwrs, bydd dewis arall yn cael ei gynnig i bob plentyn ar y cwrs neu bydd ad-daliad llawn yn cael ei roi.

Rhaid i ni dderbyn y ffurflenni cofrestru a'r tâl o leiaf 3 wythnos cyn dechrau'r cwrs.

Dylid anfon y rhain at Weinyddydd y Gwersylloedd Chwaraeon: Cyfadran y Celfyddydau ac Astudiaethau Cymdeithasol, Coleg Prifysgol y Drindod, Heol y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EP Rhif Ffôn: 01267 676806 / 676943
E-bost: sportscamp@trinity-cm.ac.uk

Coleg Prifysgol y Drindod
Trinity University College

Gwersylloedd Chwaraeon
Coleg Prifysgol y Drindod

Ffurflen Gofrestru 2010

Llenwch un ffurflen gais a chaniatâd meddygol i bob plentyn. Bydd yr holl wybodaeth ar y ffurflen hon yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol.

Nodwch wythnos y Gwersyll Chwaraeon:

Cwrs 1: 12 – 16 Ebrill ☐
Cwrs 2: 9 – 13 Awst ☐
Cwrs 3: 16 – 20 Awst ☐
Cwrs 4: 23 – 27 Awst ☐

Manylion y Rhiant/Gwarcheidwad

Teitl:…. Enw cyntaf:…… Cyfenw: ……

Cyfeiriad: ……

Rhif Ffôn (dydd): …….. Ffôn Symudol: …… Cyfeiriad e-bost:……..…

Adran (staff y Drindod yn unig): ……

Enw a Rhif Ffôn Cyswllt Arall: ……(i'w defnyddio mewn argyfwng os na fydd y prif berson cyswllt ar gael)

Manylion y Plentyn

Enw cyntaf: …… Cyfenw: …….. Rhyw G / B

Dyddiad Geni: …… Oed: ……. (Rhaid i'r plentyn fod rhwng 8 a 14 oed erbyn dechrau'r gwersyll)

Person(au) enwebedig i gasglu'r plentyn: ……(rhaid bod yn 16 oed neu'n hŷn)

Rwy'n cytuno y gall fy mhlentyn fynd adref ar ei ben/ei phen ei hun (Ticiwch os yn berthnasol) ☐

Gallu o ran nofio

Nodwch os yw eich plentyn yn nofiwr gwan neu'n methu nofio: Nofiwr gwan ☐ Methu nofio ☐

Ydych chi eisiau i'ch plentyn gymryd rhan mewn gweithgareddau dŵr? Ydw ☐ Nac Ydw ☐

Tarddiad Ethnig Ticiwch y blwch priodol. Os arall, nodwch ……

A. Gwyn
- ☐ Prydeinig
- ☐ Gwyddelig
- ☐ Unrhyw gefndir gwyn arall

B. Cymysg
- ☐ Gwyn a Du Caribïaidd
- ☐ Gwyn a Du Affricanaidd
- ☐ Gwyn ac Asiaidd
- ☐ Unrhyw gefndir cymysg arall

C. Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig
- ☐ Indiaidd
- ☐ Pacistanaidd
- ☐ Bangladeshaidd
- ☐ Unrhyw gefndir Asiaidd arall

CH. Du neu Ddu Prydeinig
- ☐ Caribïaidd
- ☐ Affricanaidd
- ☐ Unrhyw gefndir Asiaidd arall

E. Tsieineaidd neu grŵp ethnig arall
- ☐ Tsieineaidd
- ☐ Fietnamaidd
- ☐ Unrhyw grŵp ethnig arall

NODWCH BLE CLYWSOCH CHI AM Y CWRS: ....…….

Darllenwch y wybodaeth ganlynol yn ofalus a llofnodwch ar y gwaelod i ddangos eich bod yn deall ac yn derbyn y datganiadau. Ni chaiff unrhyw gais ei dderbyn oni bai bod yr adran hon wedi'i llenwi.

Manylion Meddygol

Sylwch NA ALL aelodau o staff roi meddyginiaeth. Os oes gan eich plentyn gyflwr digon difrifol fel y gallai gael ei effeithio gan weithgarwch corfforol, amgaewch lythyr gan eich Meddyg yn rhoi caniatâd i'ch plentyn gymryd rhan.

Meddyg Teulu:

Enw: ....

Cyfeiriad: .. ..

Rhif Ffôn: . .....

Rhif Cerdyn Meddygol eich Plentyn .....

Cwblhewch y canlynol:

1. Ydy eich plentyn yn dioddef o unrhyw gyflwr meddygol neu anabledd? **Ydy ☐ Nac ydy ☐**
e.e. epilepsi, asthma, clefyd y siwgr, byddardod, anaffylacsis ayb. Rhowch fanylion:

.....

2a. Ydy eich plentyn yn cymryd unrhyw feddyginiaeth? **Ydy ☐ Nac ydy ☐**

Rhowch fanylion:

.....

2b. A fydd yn rhaid iddo/iddi gymryd y feddyginiaeth hon yn ystod y cwrs? **Bydd ☐ Na fydd ☐**

2c. A all gymryd y feddyginiaeth ei hun? **Gall ☐ Na all ☐**

3. A oes gan eich plentyn unrhyw alergeddau? **Oes ☐ Nac oes ☐**
Rhowch fanylion:

.....

4. Hyd y gwyddoch, ydy eich plentyn wedi dioddef neu wedi bod mewn cysylltiad ag unrhyw beth heintus neu ymledol yn ystod y 3 wythnos diwethaf? **Ydy ☐ Nac ydy ☐**

Ymrwymiad i Gyfle Cyfartal

Mae Coleg Prifysgol y Drindod wedi ymrwymo i bolisi cyfle cyfartal a'i nod yw darparu amgylchedd gweithio a dysgu sy'n rhydd o unrhyw wahaniaethu annheg. Bydd y Brifysgol yn gwneud pob ymdrech i gymryd camau priodol i sicrhau na fydd unrhyw fyfyriwr, aelod o staff nac ymwelydd yn dioddef unrhyw wahaniaethu annheg. Mae gofyn i'r holl staff gydnabod eu cyfrifoldebau yn y cyswllt hwn. Gall pob myfyriwr ddisgwyl cael eu trin yn ystyriol a chwrtais gan staff ar bob lefel ac, yn yr un modd, er mwyn cynnal hinsawdd o hyder a pharch rhwng y naill a'r llall, disgwylir i fyfyrwyr drin staff ar bob lefel gyda'r un ystyriaeth a chwrteisi.

Mae gofyn i brifysgolion a cholegau addysg uwch weithio i weithredu cyfle cyfartal llawn i'r holl staff a myfyrwyr er mwyn sicrhau bod pawb yn rhydd o unrhyw wahaniaethu. Polisi'r Brifysgol yw sicrhau na ddylai unrhyw aelod o gymuned y Brifysgol dderbyn triniaeth fwy na llai ffafriol am unrhyw reswm nad yw'n berthnasol i arfer da o ran addysg a chyflogaeth. Nid yw gwahaniaethu uniongyrchol nac anuniongyrchol sy'n arwain at gyfleoedd anghyfartal yn dderbyniol.

Bydd y Brifysgol yn gwneud pob ymdrech i gymryd camau priodol i sicrhau na fydd unrhyw fyfyriwr, aelod o staff nac ymwelydd yn dioddef unrhyw wahaniaethu yn eu herbyn ar sail rhyw, oedran, anabledd, lliw, credo, cenedlaetholdeb, hil neu gredoau crefyddol, tueddfryd rhywiol, statws priodasol neu ddosbarth cymdeithasol.

Anghenion Arbennig

Mae'r Ysgol Chwaraeon, Iechyd ac Addysg Awyr Agored yn realistig ynghylch cyfyngiadau amgylchedd gwersyll chwaraeon i blant ag anghenion arbennig ac ystyrir presenoldeb fesul achos unigol. Bydd addasiadau *rhesymol* yn cael eu gwneud i sicrhau bod modd defnyddio'r gwasanaeth.

Yswiriant

Mae gan y gwersyll hwn yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac yswiriant atebolrwydd cyflogwr.

Diogelwch Plant

- Mae'r rhieni'n gwbl gyfrifol am eu plentyn/plant y tu allan i oriau'r gwersyll (8.30am-4.00pm) ac mae'n RHAID iddynt gludo a chofrestru'r plant yno ac oddi yno bob dydd eu hunain, NEU enwi ar y ffurflen hon yr oedolyn fydd yn gwneud hyn drostynt.
- Mae'n RHAID i rieni roi gwybod i Gyfarwyddwr y Cwrs yn uniongyrchol ac yn syth os oes newid i'r casglwyr a enwir ar y ffurflen hon.
- Ni fydd yr Ysgol Chwaraeon, Iechyd ac Addysg Awyr Agored yn gadael i blant ddychwelyd adref ar eu pen eu hunain neu gydag oedolyn heb awdurdod oni bai y ceir caniatâd y rhiant.

Amddiffyn Plant

- Mae pob aelod o'r staff goruchwylio neu hyfforddi wedi'u clirio i weithio gyda phlant trwy ddatgeliad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) ac maent wedi darparu geirdaon proffesiynol a phersonol i'r Ysgol Chwaraeon, Iechyd ac Addysg Awyr Agored.
- Mae pob aelod o'r staff hyfforddi naill ai'n athrawon addysg gorfforol cymwys neu'n hyfforddwyr cymwys gyda'r Corff Rheoli Cenedlaethol.
- Mae pob aelod o'r staff goruchwylio yn Arweinwyr Chwaraeon Cymunedol hyfforddedig neu wedi cael profiad blaenorol o weithio gyda phlant. Yn ogystal, maent wedi mynychu diwrnod hyfforddi cynhwysfawr, sy'n cynnwys gweithdrefnau brys a chymorth cyntaf, amddiffyn plant a gweithdai mewn arweinyddiaeth chwaraeon a gynhaliwyd gan yr Ysgol Chwaraeon, Iechyd ac Addysg Awyr Agored.

Mae'r Ysgol Chwaraeon, Iechyd ac Addysg Awyr Agored yn cydnabod:

- Bod lles y plentyn yn hollbwysig.
- Bod gan bob plentyn, beth bynnag yw eu hoedran, diwylliant, anabledd, rhyw, iaith, tarddiad hiliol, credoau crefyddol a/neu hunaniaeth rywiol, yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth.
- Bydd pob amheuaeth a chyhuddiad o gam-drin yn cael eu cymryd o ddifrif ac ymatebir yn gyflym ac yn briodol iddynt.
- Bod gan yr holl staff sy'n gweithio yng Ngwersylloedd Chwaraeon yr Ysgol Chwaraeon, Iechyd ac Addysg Awyr Agored gyfrifoldeb i fynegi pryderon i Gyfarwyddwr y gwersyll ac i'r asiantaeth amddiffyn plant lleol.

Ymddygiad Plant

Mae'r Ysgol Chwaraeon, Iechyd ac Addysg Awyr Agored wedi datblygu polisi Cod Ymddygiad mewn perthynas â'r ymddygiad a ddisgwylir gan blant, y gweithdrefnau yn erbyn ymddygiad gwael a bwlio, a chyfrifoldebau rhieni a staff.

Ymddygiad disgwyliedig gan blant

- Cofio mai nod chwaraeon yw cael hwyl, gwella sgiliau a theimlo'n dda.
- Rhoi o'u gorau a cheisio sicrhau'r perfformiad gorau posibl yn ystod gweithgareddau.
- Chwarae o fewn y rheolau.
- Parchu'r hyfforddwyr a'r goruchwylwyr a glynu wrth eu penderfyniadau a'u cyfarwyddiadau.
- Parchu plant eraill y gwersyll.
- Peidio â defnyddio iaith anweddus, rywiaethol neu hiliol unrhyw bryd.
- Osgoi pob math o drechafwriaeth (*gamesmanship*), trais, chwarae cas a thwyllo.
- Dangos parch at eiddo personol a chyfleusterau.

Cyfrifoldebau'r Rhieni

- Annog a chefnogi pob plentyn.
- Annog eich plentyn i chwarae yn ôl y rheolau bob amser a pharchu'r hyfforddwyr, y goruchwylwyr a phlant eraill y gwersyll.
- Peidio ag annog trechafwriaeth, chwarae cas a thwyllo.
- Peidio â gorfodi plentyn anfodlon i gymryd rhan mewn gweithgaredd/digwyddiad.
- Cefnogi pob ymdrech i gael gwared ar gamdriniaeth lafar, corfforol a hiliol o weithgareddau/ digwyddiadau.
- Peidio â chwestiynu'n gyhoeddus farn hyfforddwyr neu oruchwylwyr.
- Rhoi gwybod i ni ar lafar ac os oes angen, yn ysgrifenedig, am unrhyw faterion ymddygiad posibl a fyddai'n ein helpu ni i ddelio â'ch plentyn pan fydd yn y gwersyll.
- Bod yn ymwybodol o ymddygiad disgwyliedig plant pan fyddant yn y gwersyll.
- Cefnogi camau gweithredu'r staff i annog ymddygiad da.

Cyfrifoldebau'r Staff

- Bod yn fodel rôl da. Hyrwyddo ac annog chwarae teg.
- Addysgu'r plant i chwarae yn ôl y rheolau ac i werthfawrogi eu perfformiad nid eu canlyniadau.
- Peidio â goddef trechafwriaeth, trais, chwarae cas a thwyllo.
- Cadw'u pen a rheoli eu tymer.
- Gwerthfawrogi a chydnabod ymdrechion yr holl blant ni waeth pa mor dda ydynt yn y gweithgaredd, gan arwain at fwy o hunan-barch a datblygiad.
- Trin pob plentyn yn deg ac yn gyfartal.
- Darparu wythnos heriol, briodol a llawn hwyl.
- Bod yn glir ynghylch y cod a defnyddio'r cosbau a osodwyd gan yr Ysgol Chwaraeon, Iechyd ac Addysg Awyr Agored yn gyson. Ni fydd unrhyw gosb gorfforol yn cael ei defnyddio.

Cytundeb Ffotograffiaeth

Ar adegau yn ystod y Gwersylloedd Chwaraeon, mae'n bosibl y caiff lluniau eu tynnu o'r plant yn y gwersyll i'w defnyddio mewn deunydd cyhoeddusrwydd ar gyfer yr Ysgol Chwaraeon, Iechyd ac Addysg Awyr Agored neu'r gwersylloedd chwaraeon. Nodwch trwy dicio'r blwch os ydych yn fodlon i ni dynnu llun eich plentyn er mwyn ei ddefnyddio yn y dyfodol mewn deunydd cyhoeddusrwydd. ☐

Adrodd am Ddamweiniau

- Fel rhan o'r Gwersylloedd Chwaraeon, bydd plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau athletaidd egnïol. Trwy lofnodi'r datganiadau hyn, mae'r rhieni'n nodi eu bod yn deall bod posibilrwydd y gallai anafiadau ddigwydd.

- Mae'n rhaid i rieni lofnodi pob ffurflen ddamweiniau, fel eu bod yn llwyr ymwybodol ar unwaith o unrhyw beth a allai fod wedi digwydd i'w plentyn y diwrnod hwnnw. Bydd y goruchwyliwr mewn

gofal yn dweud wrth y rhiant wrth iddo/iddi gasglu'r plentyn bod damwain wedi digwydd a bydd yn gofyn i'r rhiant neu'r casglwr ddarllen a llofnodi'r ffurflen.
- Bydd rhieni'n cael gwybod dros y ffôn ar y dydd os oes damwain mwy difrifol wedi digwydd. Os na ellir cysylltu â rhiant, cysylltir â'r person cyswllt mewn argyfwng a nodwyd ar y ffurflen gofrestru.

Datganiad y Rhiant

Yn achos damwain, rwyf drwy hyn yn rhoi fy nghaniatâd i aelod hyfforddedig o staff roi cymorth cyntaf. Yn achos unrhyw argyfwng, os na ellir cyrraedd fy mherson cyswllt mewn argyfwng neu finnau, rwyf drwy hyn yn rhoi fy nghaniatâd i'm plentyn gael ei gludo i'r ysbyty a/neu gael unrhyw driniaeth feddygol, lawfeddygol neu ddeintyddol, gan gynnwys anaesthetig cyffredinol a thrallwysiad gwaed, fel yr ystyrir yn angenrheidiol gan yr awdurdodau meddygol sy'n bresennol.

Rwy'n deall yn llwyr os nad yw'r plentyn rhwng 8 a 14 oed, neu os yw ei ymddygiad yn annerbyniol i'r Ysgol Chwaraeon, Iechyd ac Addysg Awyr Agored (fel y disgrifir yn y Cod Ymddygiad), gellir gofyn iddo/iddi adael heb ad-daliad.

Wrth lofnodi'r ffurflen hon, rwy'n cytuno i'r holl ddatganiadau, y telerau a'r amodau o'i mewn.

Llofnod: _____ Printiwch eich enw: _____

Os hoffech drafod unrhyw rai o'r pwyntiau ar y ffurflen hon, cysylltwch â Gweinyddydd y Gwersylloedd Chwaraeon.